Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETH ANABLEDDAU DYSGU:

# Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

**Rydyn ni eisiau creu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig a fydd yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu drwy gyfnodau pontio allweddol yn eu bywydau.**

**I wneud hyn, mae angen i ni sicrhau bod digon o amser a meddwl ar gael i ddarparu gwasanaethau. Rhaid i ni hefyd wneud y mwyaf o gyfleoedd ble gall pobl archwilio'r holl opsiynau posibl sydd ar gael iddyn nhw.**



### BETH SY'N BWYSIG I BOBL AG ANABLEDDAU DYSGU?

Hoffai pobl ag anableddau dysgu pe bai hyfforddiant ar gael ar gyfer yr holl staff iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cynyddu dealltwriaeth ac empathi.

Bydden nhw'n hoffi cael mynediad at y wybodaeth gywir am wasanaethau, a fyddai'n helpu gyda'u llesiant. Bydden nhw hefyd yn hoffi teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi a chael cyfleoedd i wneud eu dewisiadau eu hunain, sy'n eu helpu i deimlo bod ganddyn nhw reolaeth dros eu bywydau.

### BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Cynyddu hyfforddiant anabledd dysgu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.



### PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Cynyddu dealltwriaeth ac empathi staff wrth gefnogi pobl ag anabledd dysgu.
- Lleihau gorbryder a darparu cyfleoedd i ddweud eich dweud o ran sut y darperir gwasanaethau.

### DYWEDODD POBL

"Waeth beth fo'r gwasanaeth,
Mae pawb yn gweithio'n
falch Partneriaid,
nid cystadleuwyr;
Rydyn ni ar yr un ochr."



**Gwyliwch fand Hear Our Voices yn perfformio 'Walk In Our Shoes' yma.**